



BBC Long Service Awards Policy

This policy forms part of the contract of employment that applies to BBC employees in the UK on Grades 2-11, and is an agreed statement between the BBC and recognised joint unions which may only be varied by joint negotiation at the National Joint Council.

Definition

All employees are eligible for a long service award on completing 25 years' service and 40 years' service with the BBC. In certain circumstances, a reduced award is payable when employees leave employment in the years immediately prior to the anniversary dates.

In extreme circumstances, a Head of Department may defer or withhold an award, e.g. when an employee is under warning of dismissal.

25 years' service

On completing 25 years of full and/or part-time service with the BBC an employee is entitled to an award of 10% of annual basic pay or 5 weeks of paid leave. The award can be taken as a combination of both pay and leave. Separate periods of service will be aggregated for the purpose of determining eligibility. An adjustment to the value of the award will be made if the employee has had full and part-time service during the during the 25 years' service.

When part of the award is taken in complete weeks' paid leave and the remaining value in cash, the cash payment will be calculated as follows:

$$\left(\frac{5 - \text{number of week's paid leave}}{5} \right) \times \text{value of full award}$$

The Paid leave must be taken either:

- before the end of the leave year following that in which 25 years' service was completed; or
- before retirement, whichever is the earlier.

It may be taken in either one or two instalments, and may be added to annual leave. As with annual leave it must be taken at a time or times approved by the BBC, release from duty is subject to the overriding needs of the BBC.

Reduced award

A reduced award is payable when employees complete 21 years', but less than 25 years' service and then:

- Retire (whether normally, prematurely or on voluntary early retirement);
- Resign (other than to avoid dismissal for disciplinary reasons);
- Are dismissed (other than for reasons of conduct);
- Die in service.



Reduced awards are calculated as follows:

Completed years of service on cessation	% of annual salary on cessation
21	2
22	4
23	6
24	8

The option of paid leave is not available for reduced awards.

Payment of award after death

On death, any full or reduced award that was due to have been paid in the year of the employee's death, reverts to the BBC. Subject to Inland Revenue limits, an equivalent *ex gratia* payment will be made to the surviving spouse or dependent(s) as the BBC may decide at its discretion.

When a member of staff dies within three months of completing 25 years' service, any *ex gratia* payment will be based on the full award.

40 years' service

On completing 40 years of service with the BBC an employee is entitled to an award of a tax free gift of the individual's choosing up to a value of £800, inclusive of VAT, engraving and delivery charges. Separate periods of service will be aggregated for the purpose of determining eligibility including wartime and call-up service whether with the Armed Forces or in some other form of service to the nation. No adjustment will be made for part-time service.

Employees are eligible for a reduced award on retiring, resigning, being dismissed for reasons other than a breach of discipline or death in service, after 36 or more years' BBC service.

When employees have completed 36 years' service, but less than 40 years' service, they qualify for a reduced award on the following scale:

Completed years of service on cessation	Maximum value of the gift
36	£720
37	£740
38	£760
39	£780



Polisi Dyfarndaliadau am Wasanaeth Hir y BBC

Nodyn: Yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg, mae gennych yr hawl i wneud cŵyn yn y Gymraeg ac i ymateb i gŵyn neu honiad(au) yn ymwneud â chi yn y Gymraeg.

Mae'r polisi hwn yn rhan o'r contract cyflogaeth sy'n gymwys i gyflogeion y BBC yn y DU ar Raddau 2-11, ac mae'n ddatganiad y cytunwyd arno rhwng y BBC a'r undebau cydnabyddedig ar y cyd na ellir ei amrywio ond drwy negodi ar y cyd yn y Cyd-gyngor Cenedlaethol.

Diffiniad

Mae pob cyflogai'n gymwys i gael dyfarndaliad am wasanaeth hir ar ôl cwblhau 25 mlynedd a 40 mlynedd o wasanaeth gyda'r BBC. Mewn rhai amgylchiadau, bydd dyfarndaliad llai yn daladwy os bydd cyflogeion yn gadael eu cyflogaeth yn y blynyddoedd yn union cyn y dyddiadau pen blwydd.

Mewn amgylchiadau eithafol, gall Pennaeth Adran ohirio neu atal dyfarndaliad, e.e. pan yw cyflogai wedi cael rhybudd diswyddo.

25 mlynedd o wasanaeth

Ar ôl cwblhau 25 mlynedd o wasanaeth amser llawn a/neu ran-amser gyda'r BBC, bydd hawl gan gyflogai i gael dyfarndaliad o 10% o'i tâl sylfaenol blynyddol neu 5 wythnos o wyliau â thâl. Mae modd cymryd y dyfarndaliad yn gyfuniad o dâl a gwyliau. Bydd cyfnodau gwasanaeth arwahân yn cael eu cynnwys yn y cyfanswm er mwyn pennu cymhwysedd. Mae gwerth y wobr yn cael ei addasu os yw'r gweithiwr wedi gwasanaethu am gyfnodau amser-llawn a rhan-amser yn ystod y gwasanaeth 25 mlynedd.

Pan gymerir rhan o'r dyfarndaliad ar ffurf wythnosau cyfan o wyliau â thâl a gweddill y gwerth mewn arian parod, bydd y taliad arian parod yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

$$\left(\frac{5 - \text{nifer yr wythnosau o wyliau â thâl}}{5} \right) \times \text{gwerth y dyfarndaliad cyfan}$$

Rhaid cymryd y gwyliau â thâl un ai:

- cyn diwedd y flwyddyn wyliau ar ôl honno pryd y cwblhawyd y 25 mlynedd o wasanaeth; neu
- cyn ymddeol, pa un bynnag yw'r cynharaf.

Gellir eu cymryd yn un neu ddwy ran, a gellir eu hychwanegu at y gwyliau blynyddol. Yn yr un modd â gwyliau blynyddol, rhaid eu cymryd ar adeg neu adegau a gymeradwyir gan y BBC: bydd rhyddhad o ddyletswydd yn ddarostyngedig i anghenion hanfodol y BBC.

Dyfarndaliad llai

Bydd dyfarndaliad llai'n daladwy os bydd cyflogeion yn cwblhau 21 mlynedd, ond llai na 25 mlynedd o wasanaeth ac wedyn:



- yn ymddeol (boed yn yr oed arferol, cyn pryd neu drwy ymddeol yn gynnar yn wirfoddol);
- yn ymddiswyddo (heblaw i osgoi ei ddiswyddo am resymau disgyblu);
- yn cael ei ddiswyddo (heblaw am resymau sy'n ymwneud ag ymddygiad);
- yn marw yn y swydd.

Cyfrifir dyfarndaliadau llai fel a ganlyn:

Blynyddoedd o wasanaeth a gwblhawyd wrth orffen	% y cyflog blynyddol wrth orffen
21	2
22	4
23	6
24	8

Nid yw'r opsiwn o gymryd gwyliau â thâl ar gael ar gyfer dyfarndaliadau llai.

Talu dyfarndaliad ar ôl marw

Os bydd cyflogai'n marw, bydd unrhyw ddyfarndaliad llawn neu lai a oedd i gael ei dalu ym mlwyddyn marwolaeth y cyflogai, yn dychwelyd i'r BBC. Yn amodol ar derfynau Cyllid y Wlad, bydd taliad cyfwerth yn cael ei wneud fel ffafr i'r priod neu ddibynnydd/dibynnyddion sy'n goroesi yn ôl yr hyn y gall y BBC ei benderfynu yn ôl ei ddisgresiwn.

Os bydd aelod o'r staff yn marw o fewn tri mis cyn cwblhau 25 mlynedd o wasanaeth, bydd unrhyw daliad a wneir fel ffafr wedi'i seilio ar y dyfarndaliad llawn.

40 mlynedd o wasanaeth

Ar ôl cwblhau 40 mlynedd o wasanaeth gyda'r BBC, bydd hawl gan y cyflogai i gael dyfarndaliad ar ffurf rhodd ddi-dreth o ddewis yr unigolyn hyd at werth o £800, gan gynnwys TAW, a chostau engrafu a danfon. Bydd cyfnodau o wasanaeth ar wahân yn cael eu cyfansymio er mwyn pennu cymhwysedd gan gynnwys gwasanaeth yn amser rhyfel ac ar ôl cael gorchymyn i ymuno â sefydliadau boed yn Lluoedd Arfog neu'n fath arall o wasanaeth i'r genedl. Ni fydd addasiad am wasanaeth rhan-amser.

Bydd cyflogeion yn gymwys i gael dyfarndaliad llai ar ôl ymddeol, ymddiswyddo, cael eu diswyddo am resymau heblaw tor disgyblaeth neu farw yn y swydd, ar ôl 36 blynedd neu fwy o wasanaeth i'r BBC.

Pan fydd cyflogeion wedi cwblhau 36 blynedd o wasanaeth, ond llai na 40 mlynedd o wasanaeth, byddant yn gymwys i gael dyfarndaliad llai ar y raddfa ganlynol:

Blynyddoedd o wasanaeth a gwblhawyd wrth orffen	Gwerth mwyaf y rhodd
36	£720
37	£740
38	£760



39	£780
----	------